Bob blwyddyn, trwy fy adroddiad blynyddol, rwy'n cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch y materion polisi allweddol lle mae gofyn bod y Llywodraeth yn gweithredu. Yn ystod y flwyddyn bydda i’n mynd ar ôl yr argymhellion hyn trwy gyfarfodydd gyda Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion, swyddogion arweiniol, a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Yna, bob chwarter, bydda i’n adrodd ar gynnydd y Llywodraeth, gan roi gradd Coch / Ambr / Gwyrdd i bob argymhelliad. Fy asesiad fy hun yw lliw'r radd, ar sail ymgysylltiad â'r holl randdeiliaid allweddol. Nid yw'r radd yn asesu a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad neu beidio. Mae lliw'r radd yn adlewyrchu a fu unrhyw newidiadau polisi ac ymarfer sy'n gwella bywydau plant yng Nghymru ac yn rhoi amddiffyniad pellach iddyn nhw fwynhau eu hawliau o dan CCUHP.

| | |
|---|---|
| **Coch** | Dim tystiolaeth o newidiadau polisi nac ymarfer ers cyflwyno'r argymhelliad. Dim gwelliant ym mhrofiadau plant. |
| **Ambr** | Peth tystiolaeth o newid polisi neu ymarfer, ond nid yw'r argymhelliad wedi'i gyflawni'n llawn yn llwyddiannus eto. |
| **Gwyrdd** | Argymhelliad wedi'i roi ar waith a gwahaniaethau amlwg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth neu gymorth. |

Er bod y broses hon o adroddiadau wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd, mae fformat y papur hwn wedi cael ei newid yn dilyn Etholiad Senedd Mai 2021. Mae’r fformat newydd yn gwahanu ac yn trefnu meysydd yn ôl themâu allweddol a blaenoriaethau. Y bwriad yw gwneud y papur hwn yn haws ei ddefnyddio ac yn fwy effeithiol, felly rydyn ni wedi cadw at eiriad cryno a chlir er mwyn ei wneud yn ddarllenadwy. Bydden ni’n croesawu unrhyw adborth ar fformat a chynnwys y ddogfen hon trwy post@complantcymru.org.uk

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am unrhyw feysydd gwaith a restrir yn y ddogfen hon, gallwch chi ddarllen ein hadroddiadau a dysgu mwy am ein cynllun gwaith cyfredol ar ein gwefan yma neu gallwch chi gysylltu â’n Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Rachel Thomas ar 01792 765600 neu drwy e-bostio post@complantcymru.org.uk

## IECHYD

| Pwnc | Blynyddoedd pan godwyd y pwnc | Crynodeb o'r argymhellion | Gradd CAG | Gwaith diweddar CPC yn y maes hwn | Ble ydyn ni nawr? |
|---|---|---|---|---|---|
| 'Llety diogel' Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) | 2017-18<br>2018-19<br>2019-20<br>2020-21<br><br>Gweler hefyd ein hadroddiad 'Dim Drws Anghywir' yma | Mannau diogel i blant mewn gofal sydd ag anghenion cymhleth fyw a derbyn cefnogaeth addas ac amserol, ym mhob rhanbarth o Gymru<br><br>Gweithredu i sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio ar drefniadau gofal parhaus | **AMBR** | Rydyn ni wedi cwrdd â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod y gwaith yma eto yn dilyn etholiad 2021.<br><br>Rydyn ni wedi ymweld eto â phob BPRh yng Nghymru ac wedi cyhoeddi ein hadroddiad dilynol ar sail yr ymweliadau hynny i graffu ar eu cynnydd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno sawl argymhelliad i'r BPRhau eu hunain, ac i Lywodraeth Cymru | Mae gan 6 o'r 7 rhanbarth gynlluniau ar gyfer darpariaeth newydd, gan ddefnyddio'r cyllid o £2 filiwn gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer hyn. Mae'r gwelyau newydd ar draws Cymru i'w croesawu'n fawr, a byddan nhw'n darparu opsiynau newydd therapiwtig ar gyfer plant sydd angen mewnbwn gan y gwasanaethau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol.<br><br>Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r unedau llety a gynlluniwyd yn unedau asesu yn bennaf, fydd yn darparu cefnogaeth yn y tymor byr tra bod lleoliad pellach yn cael ei drefnu. Rydyn ni'n teimlo y gallai fod angen datblygu darpariaeth fwy hirdymor ar gyfer y bobl ifanc hynny nad oes modd eu cefnogi'n llwyddiannus i ddychwelyd adref neu i ofal maeth.<br><br>Amlygodd ymweliadau'r Comisiynydd â'r holl Fyrddau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Partneriaeth Rhanbarthol yn 2021 fod anghytundeb ynghylch trefniadau gofal parhaus yn broblem ym mhob rhan o Gymru, ac er gwaethaf canllawiau Llywodraeth Cymru, ni welir unrhyw arwyddion bod yr anghytundebau hyn yn cael eu datrys. |
| Gwasanaethau eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd | 2016-17<br>2017-18<br>2018-19<br>2019-20<br>2020-21 | Cynnig eiriolydd i bob plentyn sydd angen hynny wrth gael mynediad i wasanaethau iechyd, fel bod eu llais yn cael ei glywed | COCH | Rydyn ni wedi mynd ar ôl hyn yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, ond fe gawson ni wybod bod y gwaith wedi'i oedi oherwydd y pandemig.<br><br>Rydyn ni'n wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a chwrdd â nhw eto i godi'r mater unwaith yn rhagor a cheisio cynnydd ar frys. | Ni welwyd fawr ddim cynnydd yn y maes hwn ers i'm swyddfa greu'r egwyddorion ar gyfer y gwaith yma, i gynorthwyo LlC.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos yn eglur nad oes ganddyn nhw gynlluniau i weithio yn y maes hwn eu hunain.<br><br>Rydyn ni eisiau gweld Llywodraeth Cymru yn ailgychwyn gwaith ar ganllawiau statudol ar gyfer eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd. |
| Cefnogaeth yn dilyn ymosodiad rhywiol | 2017-18 | Lefel gyfartal o ddarpariaeth i bob plentyn ledled Cymru sydd wedi dioddef trais neu gam-drin rhywiol, 24/7 | AMBR | Rydyn ni wedi cwrdd â Chyfarwyddwr newydd rhaglen SARC sy'n mynychu ein Bord Gron ar Ecsbloetio / Cam-drin Plant yn Rhywiol yn rheolaidd ac yn darparu | Er bod rhai heriau'n parhau o ran darparu'r gwasanaeth, gwelwyd gwelliannau sylweddol yn sut mae plant yn cael mynediad i'r gwasanaeth hwn, sydd mor eithriadol o bwysig. Mae plant yn aros am |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | diweddariadau Cymru-gyfan ar y gwasanaeth. | lai o amser i gael asesiad ac mae iechyd a'r heddlu yn cydweithio'n effeithiol i gefnogi plant.<br><br>Rhaid canolbwyntio nawr ar ymdrechion i gryfhau'r ddarpariaeth yn Ne-orllewin Cymru. |
| Pontio ym maes iechyd | 2018-19<br>2019-20<br>2020-21 | Rhoi canllawiau newydd ar waith i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi ar hyd eu taith at dderbyn gofal gan wasanaethau oedolion, lle bo angen hynny<br><br>Angen adnodd newydd digonol ar gyfer yr arweinydd newydd gweithredol a rolau gweithwyr allweddol ym mhob Bwrdd Iechyd | **GWYRDD** | Ar ôl i ni drefnu cyfarfodydd rhwng y Colegau Brenhinol iechyd, cynrychiolwyr o'r trydydd sector a swyddogion Llywodraeth Cymru yn 2019, roedden ni'n falch o weld canllawiau'n cael eu datblygu i fyrddau iechyd.<br><br>Fe wnaethon ni ymateb i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft. Rydyn ni hefyd wedi bod yn rhan o drafodaethau gweithgor pellach i geisio sicrhau'r trefniadau cefnogi cywir ar gyfer plant a theuluoedd.<br><br>Wedi oedi hir, mae'r canllawiau bellach wedi'u cyhoeddi. | Cyhoeddwyd y canllawiau pontio ym mis Chwefror 2022. Anfonwyd y canllawiau at y Byrddau Iechyd Lleol gyda chylchlythyr gan Brif Swyddog Gweithredol y GIG yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Mae hyn i'w groesawu.<br><br>Roedd y canllawiau'n cynnwys fersiwn person ifanc, a fideo ac esboniad un tudalen yn nodi'r prif newidiadau, oedd yn cynnwys creu rôl arweiniol uwch newydd ar gyfer pontio a throsglwyddo yn y bwrdd iechyd, rolau newydd i weithwyr penodol (sy'n gyfrifol am helpu pobl ifanc i baratoi cynllun pontio fydd yn cynnwys yr holl bobl berthnasol sy'n ymwneud â'u gofal ar draws gwasanaethau); a chreu Cynllun Pontio a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Throsglwyddo, a fwriadwyd yn basbort i bobl ifanc, fel bod dim rhaid iddyn nhw ailadrodd eu hanghenion bob tro bydd rhywun newydd yn eu helpu.<br><br>Bydden ni wedi hoffi i'r canllawiau greu dyletswydd cryfach o ran cydlynu'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â gofal plant – yn arbennig pan fydd ganddyn nhw anghenion cymhleth y tu hwnt i iechyd – ond rydyn ni'n falch o weld y rolau newydd a ddylai olygu gwell ffocws ar gyfuno gwasanaethau er mwyn paratoi'n well ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion.<br><br>Rydyn ni'n disgwyl i bob Bwrdd Iechyd Lleol fod yn datblygu eu cynlluniau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau erbyn gweithgarwch monitro cyntaf LlC yn 2024. |

ADDYSG

| Pwnc | Blynyddoedd pan godwyd y pwnc | Crynodeb o'r argymhellion | Gradd CAG | Gwaith diweddar CPC yn y maes hwn | Ble ydyn ni nawr? |
|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd meddwl a llesiant | 2015-16<br>2019-20<br>2020-21 | Cefnogaeth i iechyd meddwl a llesiant plant yn yr ysgol – dull gweithredu Ysgol Gyfan | GWYRDD | Buon ni'n cyfranogi mewn gweithgor i sicrhau bod y fframwaith Dull Ysgol Gyfan yn cael ei gyhoeddi eleni. Rydyn ni'n parhau i graffu ar sut mae hyn yn cael ei gyfathrebu a'i raeadru i ysgolion.<br><br>Rydyn ni hefyd wedi ymwneud â'r grŵp llywio gweithredu, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru. | Rydyn ni'n falch o weld cyhoeddi'r canllawiau, ac rydyn ni wedi clywed peth tystiolaeth anecdotaidd gadarnhaol ynghylch ysgolion yn symud dull gweithredu ysgol gyfan ymlaen, yn unol â'r canllawiau. Adlewyrchwyd hyn hefyd mewn profiadau cadarnhaol o waith at ddull gweithredu ysgol gyfan, yr adroddodd fy llysgenhadon ifanc amdanynt fel rhan o'u tasg arbennig yn nhymor yr hydref.<br><br>Roedden ni'n falch o weld yr ymrwymiad ariannol mawr gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r canllawiau:<br><br>- 2021/22 - £2 m<br>- 2022/23 - £5.2m<br>- 2023/24 cyllideb ddangosol o £7.4m<br><br>Cyhoeddwyd dogfen asesu'r gallu i werthuso ym mis Ionawr 2022. Roedd argymhellion yr asesiad gallu i werthuso yn nodi llawer o'n blaenoriaethau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | o ran gweithredu'r fframwaith yn effeithiol. Rydyn ni'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu datblygu trwy'r gwaith gweithredu dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Rydyn ni eisiau gweld yr adnodd yn cael ei droi'n gefnogaeth strategol weladwy i ysgolion roi'r canllawiau ar waith yn effeithiol. |
| Trafnidiaeth i Ddysgwyr | 2015-16<br>2018-19<br>2020-21 | Canllawiau newydd ar gyfer cael mynediad i drafnidiaeth i'r ysgol ym mhob rhan o Gymru, i blant o bob oed | **AMBR** | Rydyn ni wedi bwydo i mewn i adolygiad LlC, ond heb weld canlyniad na chanfyddiadau.<br><br>Rydyn ni wedi gofyn am ddiweddariad gan LlC gan ein bod yn pryderu am yr oedi pellach gyda'r gwaith yma. Fe wnaethon ni gwrdd â'r Dirprwy Weinidog ym mis Ionawr 2022 i drafod ymhellach a gofyn am gyhoeddi'r adroddiad interim. | Cyhoeddwyd yr adroddiad interim ar waith adolygiad 2020-21 ddiwedd mis Mawrth 2022 ond nid yw'n cynnwys llawer o fanylion nac unrhyw amserlenni ar gyfer cyfnod nesaf y gwaith.<br>Mae hyn yn arwydd o oedi pellach gyda'r newidiadau angenrheidiol, y bu angen amdanynt ers meitin i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.<br>Rydyn ni wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog eto i ofyn am eglurhad ynghylch y gwaith mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud. |
| Hawliau Plant yn y Cwricwlwm | 2015-16<br>2016-17<br>2017-18<br>2018-19<br>2019-20 | Cynnwys CCUHP yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu fel bod pob athro a phlentyn yn gwybod am hawliau plant ac yn cael profiad o hynny yn amgylchedd yr ysgol. | **GWYRDD** | Rydyn ni wedi cefnogi LlC i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu nodi ar draws deunyddiau'r Cwricwlwm newydd, yn ogystal â sicrhau | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyheoddi canllawiau i gefnogi ysgolion i ymgorffori hawliau wrth ddylunio'u cwricwlwm. Mae Llywodraeth Cymru hefyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2020-21 | Sicrhau bod canllawiau cenedlaethol a dysgu proffesiynol i gefnogi hyn. | | bod dyletswydd cysylltiedig â CCUHP yn ymddangos ar y Bil (sydd bellach yn Ddeddf).<br><br>Mae fy nhîm wedi diweddaru canllawiau Y Ffordd Gywir i addysg i gefnogi gweithredu'r ddyletswydd sydd yn y Ddeddf. | yn cynllunio pecyn o ddysgu proffesiynol i gefnogi gweithredu'r ddyletswydd sydd yn y Ddeddf. |
| Addysgu gartref | 2015-16<br>2016-17<br>2017-19<br>2018-19<br>2019-20<br>2020-21<br><br>Gweler hefyd yr adroddiad hwn o'n hadolygiad ffurfiol yn 2020 [yma]() | Mae angen deddfwriaeth newydd i sicrhau bod pob plentyn yn cael eu gweld a bod modd siarad â nhw am eu haddysg | **COCH** | Rydyn ni wedi cynnal adolygiad ffurfiol o gamau gweithredu LlC mewn perthynas â'r polisi hwn, a chafwyd bod diffyg sylw dyledus i hawliau plant ac na fu unrhyw gynnydd ystyrlon o ran polisi. | Nid yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad allweddol fy adolygiad ffurfiol, sef bod angen deddfwriaeth sylfaenol i sicrhau hawliau dynol plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati i ddatblygu canllawiau newydd statudol o dan y cyfreithiau sydd eisoes yn bodoli, er na welwyd camau pendant ar hyn ers yr etholiad. Gallai hyn olygu ei fod yn fwy tebygol bod plant yn cael eu gweld a bod rhywun yn siarad â nhw, ond ni fydd yn cyflawni'r hyn sy'n angenrheidiol i warantu hawliau plant, gan gynnwys eu hawliau i gael addysg a bod yn ddiogel. |
| Ysgolion Annibynnol | 2019-20<br>2020-21 | Safonau newydd mewn Rheoliadau sy'n sicrhau bod pob plentyn mewn ysgol breswyl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael | **AMBR** | Rydyn ni wedi cynnal adolygiad ffurfiol o gamau gweithredu LlC mewn perthynas â'r polisi hwn. Yn | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno galwad gyhoeddus am dystiolaeth ynghylch ysgolion annibynnol, sy'n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gweler hefyd yr adroddiad hwn o'n hadolygiad ffurfiol yn 2020 yma | cefnogaeth dda o ran eu hanghenion addysgol a bugeiliol | | amlwg, cafodd y pandemig effaith ar y gwaith hwn, ond mae angen gweithredu ar frys, gan fod LlC wedi bod yn ymwybodol o fylchau yn y trefniadau diogelu ers blynyddoedd lawer bellach, fel y canfu'r Adolygiad.<br><br>Fe wnaethon ni ymateb i alwad y cyhoedd am dystiolaeth, a byddwn ni'n ymateb i'r ymgyngoriadau pellach ar y pwnc hwn. | arwydd bod ystod o newidiadau i'r rheoliadau a'r canllawiau yn cael eu hystyried. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar fylchau yn y cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. |
| Cydberthynas Iach | 2017-18<br>2020-21 | Rhaid i ddatblygiad pellach y Côd a'r Canllawiau drafft ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb [RSE] gymryd barn a phrofiad pobl ifanc i ystyriaeth.<br><br>Rhaid symud ymlaen hefyd gydag argymhellion ehangach Panel Arbenigwyr 2017, yn arbennig dysgu proffesiynol a datblygiad dulliau ysgol gyfan o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. | **GWYRDD** | Rydyn ni wedi bod yn arsylwi'r grŵp rhanddeiliaid ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb [RSE] ac wedi ymateb yn helaeth i'r ymgynghoriad diweddar ar y Côd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rydyn ni hefyd wedi cael sawl cyfarfod gyda swyddogion mewn ymgais i gryfhau'r canllawiau. | Mae'r Côd a'r Canllawiau terfynol wedi mynd trwy'r Senedd, ac maen nhw wedi'u cyhoeddi, fel eu bod ar gael i ysgolion.<br><br>Roedd hyn yn golygu symud ymlaen gyda sawl un o'r meysydd oedd yn cael eu hargymell gan fy swyddfa.<br><br>Mae croesawu'r hawliau Cydberthynas a Rhywioldeb [RSE] cynhwysol, seiliedig ar hawliau i holl blant Cymru, fel y nodir yn y canllawiau, yn fy nghalonogi.<br><br>Nawr mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu cefnogi |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | â dysgu proffesiynol digonol o safon uchel i sicrhau bod plant yn profi'r hawliau hyn. |
| Gwaharddiadau yn y Cyfnod Sylfaen | 2020-21 | Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu a newid canllawiau statudol ar waharddiadau fel eu bod yn cynnwys ystyriaethau penodol ynghylch oed y plentyn ac yn cyflwyno dewisiadau amgen clir yn lle gwaharddiad. Dylid cefnogi hyn â chynllun gweithredu i roi cymorth cynnar i blant ifanc. | **AMBR** | Derbyniwyd yr argymhelliad polisi hwn gan Lywodraeth Cymru yn eu hymateb i Adroddiad Blynyddol 2020-21 ac mae'r Comisiynydd wedi trafod hyn yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yn hydref 2021 a dechrau 2022. Rydyn ni hefyd yn cynghori Estyn ar sut gall arolygu awdurdodau lleol gynnwys materion sy'n ymwneud â gwahardd plant ifanc. | Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i adolygu'r canllawiau statudol ar waharddiadau er mwyn adlewyrchu anghenion a hawliau plant ifanc yn well.<br><br>Nid yw'r amserlenni ar gyfer y gwaith hwn wedi'u cadarnhau eto, a bydd ein swyddfa'n parhau i graffu ar y maes hwn er mwyn sicrhau bod adolygiad yn digwydd yn brydlon, a bod canllawiau diwygiedig yn cael eu llywio gan anghenion plant ifanc. |
| Cymwysterau | 2020-21 | Mae angen bod gwybodaeth glir, hygyrch ar gael i bobl ifanc ynghylch sut bydd cymwysterau'n cael eu dyfarnu yn 2022, a dylen nhw ymwneud â datblygu'r negeseuon hynny. | **GWYRDD** | Rydyn ni'n arsylwyr ar grwpiau rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru ynghylch cymwysterau 2022. Rydyn ni wedi cynghori Cymwysterau Cymru wrth sefydlu eu paneli ymgynghorol o ddysgwyr eu hunain, ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.<br><br>Rydyn ni hefyd wedi galluogi ein Panel Ymgynghorol o bobl ifanc i rannu eu barn a'u | Lansiodd Llywodraeth Cymru a'u partneriaid (CBAC a Cymwysterau Cymru) wefan benodol ar gyfer pobl ifanc ym mis Chwefror 2022 / Lefel Nesa'/ Power Up). Ymgynghorwyd â phobl ifanc wrth ddatblygu'r adnodd hwn, sy'n cynnwys gwybodaeth gyfeiriadol ynghylch cymwysterau a chefnogi llesiant.<br><br>Mae mwy o gyllid hefyd wedi cael ei ddarparu er mwyn galluogi unigolion i gael |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | profiadau o gymwysterau gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys er mwyn llywio'u hymgyrch gyfathrebu ar gyfer cymwysterau 2022. | mynediad at fwy o gefnogaeth yn eu lleoliadau, gan gynnwys mwy o gyngor gyrfaoedd ynghylch y camau nesaf.<br><br>Wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi, bydd angen i bobl ifanc barhau i dderbyn negeseuon clir a chefnogaeth ynghylch asesu a'r camau nesaf. |

## GOFAL CYMDEITHASOL A CHYFIAWNDER IEUENCTID

| Pwnc | Blynyddoedd pan godwyd y pwnc | Crynodeb o'r argymhellion | Gradd CAG | Gwaith diweddar CPC yn y maes hwn | Ble ydyn ni nawr? |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth i Ymadawyr Gofal | 2016-17<br>2017-18<br>2018-19<br>2019-20<br>2020-21<br><br>Gweler hefyd ein hadroddiad Breuddwydion Cudd yma a'r camau dilynol yma | Mae angen deddfwriaeth newydd er mwyn:<br>• Sicrhau cefnogaeth Ymgynghorydd Personol i bawb hyd at 25 oed | AMBR | Rydyn ni wedi codi'r materion hyn yn rheolaidd gyda LlC, gan geisio sicrhau'r ymrwymiadau maen nhw wedi'u gwneud mewn ymateb i'n gwaith a'n hadroddiadau.<br><br>Rydyn ni wedi cyfranogi mewn nifer o weithgorau ar gefnogaeth i ymadawyr gofal. Fe gyflwynon ni lythyr ar y cyd at Weinidog yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn ceisio sicrhau newidiadau ar unwaith i'r Gyfradd Llety a Rennir – a digwyddodd hynny. | Bydd CPC yn rhoi cyflwyniad i Fwrdd Trosolwg Llywodraeth Cymru ar gyfer Trawsffurfio Gofal Cymdeithasol i Blant ym mis Mawrth 2022 ar yr hyn rydyn ni'n galw amdano i Ymadawyr Gofal. Rydyn ni hefyd yn croesawu cynlluniau cynnar i LlC gynnal cynhadledd ymadawyr gofal i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am y gefnogaeth mae arnyn nhw ei hangen.<br><br>Rydyn ni wedi cael ar ddeall y ceir hyd i amser deddfwriaethol yn 2022/23 i sicrhau estyniad YP i bobl |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ifanc hyd at 25 oed. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ein bod wedi cael ar ddeall bod mynediad i'r math yma o gefnogaeth wedi cymryd cam yn ôl oherwydd diffyg sylfaen statudol. |
| Cefnogaeth i Ymadawyr Gofal | 2016-17<br>2017-18<br>2018-19<br>2019-20<br>2020-21<br><br>Gweler hefyd ein hadroddiad Breuddwydion Cudd yma a'r camau dilynol yma | LlC i gyhoeddi gwybodaeth ynghylch sut mae cael mynediad i gefnogaeth ariannol a'r pethau y dylid gallu eu hawlio | **AMBR** | Fe wnaethon ni alw am welliannau i'r wybodaeth ariannol sy'n cael ei chyhoeddi nôl yn 2017, ac rydyn ni wedi parhau i fynd ar ôl y galwadau hynny gyda LlC.<br><br>Rydyn ni hefyd wedi cynnal ein hadnodd Fy Nghynllunydd â gwybodaeth a chyngor i ymadawyr gofal.<br><br>Fe wnaethon ni gwrdd â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau i drafod yr angen am well addysg ariannol i ymadawyr gofal. | Rydyn ni'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi darparu peth cyllid i Plant yng Nghymru a Lleisiau o Ofal Cymru i ddatblygu adnoddau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, sydd ar gael yma: Prosiect Paratoi I Plant yng Nghymru<br><br>Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau hefyd yn cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i wella addysg ariannol i blant a phobl ifanc.<br><br>Rydyn ni hefyd yn croesawu cynnwys Ymadawyr Gofal ym Mheilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol Llywodraeth Cymru, ond yn cydnabod y bydd angen rhoi hyn ar waith yn ofalus.<br><br>**Er bod camau bach wedi'u cymryd yn y maes hwn, rydyn ni'n dal heb weld mynediad cyson at wybodaeth ariannol** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **a ddatblygwyd ar gyfer ymadawyr gofal. Mae mynediad at gefnogaeth YP yn allweddol i'r holl fentrau uchod.** |
| Cyswllt â siblingiaid ar ôl mabwysiadu | 2016-17 | Gwreiddio cyswllt â siblingiaid ym mhrosesau cynllunio ac adolygu gofal pob plentyn sydd mewn gofal | **AMBR** | Trwy ein rôl arsylwi ar Fwrdd Llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol rydyn ni'n ymwybodol o ymrwymiad cynyddol i archwilio trefniadau cyswllt parhaus gyda'u teuluoedd biolegol ar gyfer plant a fabwysiadwyd.<br><br>Rydyn ni wedi cyhoeddi canllaw newydd ar gyfer dull gweithredu seiliedig ar hawliau o ymdrin â gwaith cymdeithasol, a gallwch ei ddarllen a'i lawrlwytho yma | Mae Lleisiau o Ofal, Plant yng Nghymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi annog arfer da a chynhyrchu canllawiau i bobl ifanc ar gyswllt â siblingiaid. Fodd bynnag, ni wnaed newidiadau i ddeddfwriaeth na chanllawiau.<br><br>Rydyn ni'n ymwybodol bod yr Alban wedi cryfhau ei deddfwriaeth ynghylch cyswllt siblingiaid yn achos pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Wrth i Gymru symud ymlaen gyda Diwygio Rhianta Corfforaethol a datblygu Siarter ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, rydyn ni'n gobeithio bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gynnal yr hawl bwysig hon i fywyd teuluol i blant. |
| Cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl | 2016-17 | • Rhoi protocol ar waith i atal pobl ifanc rhag cael eu troseddoli'n ddiangen am fân bethau | **GWYRDD** | Cododd CPC bryderon gyntaf ynghylch troseddoli pobl ifanc â phrofiad o ofal yn ormodol yn ein Hadroddiad ar y Gofal Cywir, a | Rydyn ni'n falch bod y Protocol ar gyfer Lleihau Troseddoli Plant mewn Gofal yn Ddiangen wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyhoeddwyd yn 2016. Ers hynny, rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid (fel NYAS a 4Cs) i lobïo LlC i roi sylw i'r pryderon hyn ac er mwyn i Gymru ddatblygu ei phrotocol ei hun ar gyfer atal troseddoli diangen. Fe wnaethon ni ddefnyddio ein Seminar gyntaf ar Hawliau Plant ym maes Cyfiawnder Ieuenctid a Phlismona yn 2021 i drafod y cynllun roedd LlC wedi'i amlinellu. | 2022, ynghyd â chyllid i wreiddio hyfforddiant.<br><br>Bydd hyn yn golygu bod disgwyl i wasanaethau sy'n ymwneud â gofal a chefnogaeth plant sydd â phrofiad o ofal sicrhau bod ganddyn nhw drefniadau cadarn i osgoi achosion diangen o droseddoli. Bydd hyn yn berthnasol i bob person ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ogystal.<br><br>Fuasai hyn ddim yn bosibl petai'r holl sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud â chefnogi a diogelu plant sy'n derbyn gofal heb gydweithio mor agos. |
| Cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl | 2016-17<br>2019-20<br>2020-21<br><br>Gweler hefyd ein hadroddiad Y Gofal Cywir [yma] | • Cefnogaeth gyfatebol i'r cynllun Pan Fydda i'n Barod ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal maeth, fel nad yw'r gefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl yn dod i ben yn sydyn pan fyddan nhw'n cyrraedd 18 oed<br>• Datblygu safonau cenedlaethol i ymdrin a phryderon ansawdd, digonolrwydd ac addasrwydd llety lled- | COCH | Mae CPC yn (neu wedi) cyfranogi mewn ystod eang o grwpiau sy'n archwilio'r materion hyn, er enghraifft Partneriaeth Dileu Digartrefedd Ieuenctid, a Grŵp Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydyn ni'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn awr wedi dod â'r Grŵp Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i ben, er bod | Mae'n destun siom na welwyd cynnydd o ran darparu cefnogaeth gyfatebol i ymadawyr gofal sy'n gadael cartrefi preswyl, er bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn hynny yn 2016/17. Elfen hanfodol o ddarparu'r gefnogaeth hon yw gwella'r gefnogaeth y gall Ymgynghorwyr Personol ei chynnig, a sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad i ystod o opsiynau llety diogel o safon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | annibynnol i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal hyd at 25 oed. Cynigiwyd hyn gan Grŵp Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd Llywodraeth flaenorol Cymru, ond mae'r cynnydd wedi stopio'n sydyn. | | llawer o'r dyheadau yr oedd i'w cyflawni heb ddigwydd.<br><br>Mae'n dal yn destun pryder bod disgwyl i bobl ifanc sy'n gadael gofal fyw'n annibynnol yn llawer ifancach na'u cyfoedion, ond gall y gefnogaeth i lety o safon a mynediad iddo amrywio'n fawr. | ar gyfer cychwyn eu bywydau fel oedolion.<br><br>Rhaid i LlC gyflwyno cynlluniau clir ar gyfer ymdrin â'r anghydraddoldebau hirsefydlog hyn, trwy wella mynediad i gefnogaeth a phennu safonau ar gyfer llety o ansawdd. Nid ydym wedi dadlau o blaid plant yn aros mewn cartrefi preswyl, ond rydyn ni wedi awgrymu bod modelau amgen o lety a chefnogaeth yn cael eu hystyried. |
| Diwygio Rhianta Corfforaethol | 2020-21 | Cryfhau rôl rhianta corfforaethol Cymru trwy ddeddfwriaeth a chanllawiau, er mwyn sicrhau bod system ofal Cymru yn seiliedig ar hawliau ac yn galluogi plant i ffynnu mewn gofal. Mae'n arbennig o bwysig symud y gwaith hwn ymlaen, gan fod niferoedd mawr o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal eisoes wedi ymwneud â'r broses, a bydd ganddyn nhw ddisgwyliadau bod newidiadau pwysig i'w gwneud. | **AMBR** | Rydyn ni'n aelodau o weithgor Llywodraeth Cymru ar Rianta Corfforaethol ac wedi ymwneud â'r gweithdy rhychwantu cychwynnol yn 2020.<br><br>Rydyn ni wedi amlygu'r angen am ddull gweithredu ysgol gyfan a dull Dim Drws Anghywir wrth gyflwyno gwasanaeth, er mwyn cysylltu â'r diwygio pwysig hwn ar gyfer plant mewn gofal. | Bydden ni'n hoffi gweld datblygu Siarter ar gyfer pobl ifanc sydd â Phrofiad o Ofal, fydd yn hybu eu hawliau ac egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.<br><br>Rhaid i LlC fyfyrio ynghylch newid y canllawiau a'r ddeddfwriaeth ar gyfer rhianta corfforaethol, fel bod gwasanaethau'n nesáu at ei gilydd i gynnal eu dyletswyddau i blant. Rhaid adeiladu hyn ar yr egwyddor ein bod yn rhannu'r cyfrifoldeb o gefnogi'r plant sydd yn ein gofal i ffynnu. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety heb ei Reoleiddio | 2020-21 | Gan ddefnyddio data ynghylch defnydd cyfredol o ofal heb ei reoleiddio ar gyfer rhai o dan 18 oed, ystyried pa newidiadau allai fod yn ofynnol i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), er mwyn cryfhau'r arolygu a'r rheoleiddio ar ddarpariaethau gofal a llety i rai o dan 18 oed nad ydynt ar hyn o bryd o fewn cwmpas y Ddeddf. | COCH | Fe fuon ni'n trafod gyda nifer o sefydliadau sy'n ymwneud â gofal a chefnogaeth i blant (Llamau, Plant yng Nghymru, Cadeiryddion Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a Chadeiryddion y Fforwm Gadael Gofal) ynghylch y pryderon cynyddol ynghylch defnyddio gofal heb ei reoleiddio i rai o dan 16 oed a rhai 16-18 oed. Rydyn ni wedi ymatal rhag cefnogi'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn Lloegr, lle gwnaed lleoliadau o'r fath yn anghyfreithlon, gan ein bod am weld ateb pragmataidd yn cael ei ddatblygu, sy'n cefnogi hawliau niferus plant o dan CCUHP. Rydyn ni'n pryderu bod rhai pobl ifanc yn gallu cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd bregus iawn, ac mae'n rhaid cysylltu'r alwad hon ag eraill gennym, megis estyn cefnogaeth YP a datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer llety. | Bydden ni'n disgwyl i Lywodraeth Cymru gynnull gweithgor ar hyn sy'n ystyried effaith amrywiol lleoliadau heb eu rheoleiddio ar rai o dan 16 oed, ac un arall ar gyfer rhai 16-18 oed. Mae hwn yn faes cymhleth lle gall terminoleg achosi dryswch ar brydiau, felly mae'n bwysig bod anghenion, a hawliau unigryw pob grŵp oed, a'r pethau y dylen nhw fedru eu hawlio, yn cael eu hystyried, a bod atebion ymarferol yn cael eu canfod. |
| Elw mewn gwasanaethau gofal | 2017-18<br>2018-19<br>2019-20<br>2020-21 | Dileu'r arfer o wneud elw o wasanaethau gofal plant, yn unol ag ymrwymiad maniffesto'r blaid Lafur yn 2021 | AMBR | Rydyn ni wedi cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad yr awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i elw mewn gwasanaethau gofal ac yn | Roedden ni'n croesawu'n fawr yr ymrwymiad clir i hyn yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gweler hefyd ein galwadau maniffesto ein hunain yn 2021 yma | | | nodi bod eu hadroddiad wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022. Rydyn ni hefyd wedi cwrdd â Gweinidogion a swyddogion LlC, ac aelodau eraill o'r Senedd, i drafod symud ymlaen gydag ymrwymiad y maniffesto yn y Tymor Senedd hwn; rydyn ni'n arsylwyr ym Mwrdd LlC a'r grwpiau llif gwaith sy'n symud y gwaith hwn yn ei flaen. | Mae'n debygol y bydd y gwaith yn galw am newid deddfwriaethol, ac mae hynny'n cael ei ystyried yn weithredol, gyda'r gweithgorau presennol yn rhoi sylw iddo.<br><br>Yn y cyfamser bydd angen i'r Llywodraeth gyfleu ei phrif negeseuon a'r cynnydd o ran y gwaith yn glir er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y sector yn ystod y cyfnod pontio hwn o newid. |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 2019-20<br>2020-21 | Mae angen cynnydd ar frys i gyflawni nodau a chamau gweithredu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid | **AMBR** | Rydyn ni wedi mynychu a chydlynu llawer o gyfarfodydd gyda'r Llywodraeth a chyrff cyfiawnder ieuenctid i geisio annog cynnydd.<br><br>Mae hyn wedi cynnwys cynnal dwy Seminar ar Hawliau Plant ym maes Cyfiawnder Ieuenctid a Phlismona a darlith gyhoeddus i gynnig hyfforddiant eang ar hawliau. Rydyn ni'n falch o weld cynnydd ar draws y sectorau Cyfiawnder Ieuenctid a Phlismona fel ei gilydd i gynnal egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar | Rydyn ni'n croesawu'r Glasbrint, ond ni fu digon o ffocws ar symud yr elfen cyfiawnder ieuenctid ymlaen hyd yma.<br><br>Rydyn ni'n falch bod cytundebau wedi'u llunio rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i ddatblygu llety a gomisiynwyd ar y cyd yng Ngogledd Cymru. Rydyn ni hefyd yn falch bod YOI y Parc wedi defnyddio egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth aildendro.<br><br>Rydyn ni wedi cael ein plesio hefyd gan ymgysylltiad mor |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hawliau plant a chynnwys plant yn well wrth ddylunio'u gwasanaethau. Rydyn ni hefyd wedi cynnal hyfforddiant ar hawliau i YOTs, Cartref Plant Diogel Hillside a'r Heddlu. | eang gan y sector i wella'u hymwybyddiaeth o hawliau plant. Rhaid i Lywodraeth Cymru adeiladu ar y momentwm hwn i ddiwygio'n gwasanaethau er mwyn cyflwyno system seiliedig ar hawliau. Bydden ni hefyd yn hoffi gweld cynnydd pendant o ran llety newydd i bobl ifanc yn y ddalfa yng Nghymru. |
| Gofalwyr Ifanc | 2020-21 | Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofalu i sicrhau bod y strategaeth Gofalwyr Di-dâl yn adlewyrchu eu hanghenion yn ddigonol ac yn hybu eu hawliau. | **AMBR** | Mae CPC wedi bod yn aelod o Grŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Rydyn ni wedi bod yn falch o weld datblygiad Siarter Gofalwyr, sy'n hybu hawliau CCUHP plant. Rydyn ni hefyd wedi dadlau y dylai'r strategaeth gysylltu â'r dull ysgol gyfan o ymdrin â datblygiadau iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu cael mynediad at gefnogaeth gadarn mewn ysgolion. | Gan fod y Siarter i Ofalwyr Di-dâl i gael ei chyhoeddi'n fuan, rydyn ni'n gobeithio bydd fersiwn hygyrch ac i blant yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â hyn i ategu'r gefnogaeth i blant a'u hawliau CCUHP.<br><br>Bydd LlC yn parhau i ymgysylltu â phlant wrth ddatblygu'r strategaeth. |

TACLO ANGHYDRADDOLDEB

| Pwnc | Blynyddoedd pan godwyd y pwnc | Crynodeb o'r argymhellion | Gradd CAG | Gwaith diweddar CPC yn y maes hwn | Ble ydyn ni nawr? |
|---|---|---|---|---|---|
| Tlodi plant | 2015-16<br>2016-17<br>2017-18<br>2018-19<br>2019-20<br><br>Gweler hefyd ein hadroddiad 'Siarter ar gyfer Newid' yma | Cynllun clir gan LlC yn nodi sut byddan nhw'n cefnogi plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, ac yna cyflawni'r cynllun hwnnw. | **AMBR** | Rydyn ni wedi cyfranogi mewn gweithgor a thrafodaethau gyda swyddogion, ond bydden ni'n dal i groesawu cynllun clir ar gyfer taclo tlodi.<br><br>Rydyn ni hefyd wedi codi cwestiynau ynghylch y terfyn 2-blentyn gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig, cyhoeddwyd yma<br><br>Rydyn ni wedi cyflwyno tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ynghylch Budd-daliadau a Chymru. | Rydyn ni'n croesawu'r gwaith sy'n parhau i fwyafu incwm a manteisio ar fudd-daliadau lles, ac mae'n cefnogi'r gwaith hwn.<br><br>Rydyn ni'n croesawu'r diweddariadau i'r Rhaglen Lywodraethu sy'n rhoi blaenoriaeth i'r maes hwn. Nodwn adroddiad diweddar y Grŵp Gweithredu ynghylch Tlodi Plant ar fynediad at frecwast am ddim yn yr ysgol; roedd hwn yn fater a godwyd yn ein hadroddiad Siarter ar gyfer Newid, ond ni wnaed cynnydd o ran ymdrin ag ef. Mae'n arbennig o bwysig yng ngoleuni argyfwng presennol costau byw.<br><br>Mae effaith barhaus y terfyn 2 blentyn a dileu'r ychwanegiad o £20 i gredyd cynhwysol yn dal i effeithio ar deuluoedd yng Nghymru; nid ydym wedi llwyddo i sicrhau cyfarfod gyda'r Adran Gwaith a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Phensiynau (DWP) i roi sylw i hyn. |
| Cefnogaeth i Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | 2016-17 | • Statws digonol i BSL yn y cwricwlwm newydd, gyda chanllawiau i gyd-fynd â hynny<br>• Gwella mynediad at gefnogaeth yn y gymuned ar gyfer teuluoedd sydd angen dysgu BSL<br>• Siarter BSL | **AMBR** | Rydyn ni wedi cynnal cyfarfod bord gron gyda sefydliadau ac unigolion b/Byddar, a rhannu'r canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Rydyn ni wedi ymateb i ymgyngoriadau LlC ar y Cwricwlwm. | Gwnaed cynnydd o ran y cwricwlwm:<br><br>Mae fideos BSL wedi cael eu gwneud yn rhan o'r Datganiadau Beth sy'n Bwysig ar gyfer elfen Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r cwricwlwm.<br><br>Hefyd cynhaliwyd sesiynau cenedlaethol ar gyfer Athrawon pobl Fyddar a thiwtoriaid BSL; ar ben hynny, mae rhanbarthau'n cynllunio sesiynau ar ôl y Pasg ar gyfer ysgolion sy'n ystyried cyflwyno BSL. |
| Trafnidiaeth | 2016-17<br>2017-18 | Estyn cymhorthdal trafnidiaeth llawn i bawb o dan 18 oed o leiaf | **COCH** | Rydyn ni wedi cwrdd â swyddogion a'r Gweinidog i drafod y mater yma, yn ogystal â'r pleidiau gwleidyddol mewn perthynas â'u maniffestos ar gyfer etholiad 2021.<br><br>Fe wnaethon ni ymateb i ymgynghoriad LlC ar y strategaeth drafnidiaeth. | Cawson ni ein siomi nad oedd ymrwymiad i gymhorthdal trafnidiaeth llawn i bawb o dan 18 oed yn y Maniffesto na'r Rhaglen Lywodraethu.<br><br>Ochr yn ochr â'r Adolygiad Teithio gan Ddysgwyr, rydyn ni am weld mwy o gydnabyddiaeth o effaith costau trafnidiaeth gyhoeddus ar bobl ifanc, a chynnydd at gyflawni polisïau tecach iddyn nhw, yn unol â hawliau plant. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Plant | 2016-17 | Galluogi mwy o blant i gael mynediad i ofal plant am ddim, yn ifancach, neu hyd yn oed os yw eu rhieni mewn addysg / hyfforddiant / yn ddi-waith ar hyn o bryd, fel bod pob plentyn ifanc yn elwa o'r datblygiad iaith a sgiliau y gall gofal plant o safon ei gynnig iddyn nhw. | **AMBR** | Rydyn ni wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion ynghylch polisïau gofal plant yn ystod y pandemig.<br><br>Rydyn ni wedi croesawu'r ddarpariaeth i blant mewn sefyllfa fregus yn ystod y pandemig, er enghraifft mynediad i hybiau gofal plant.<br><br>Fe roeson ni dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar ofal plant a chyflogaeth, ac rydyn ni'n croesawu eu hargymhellion i sicrhau bod y Cynnig Gofal Plant yn canolbwyntio'n fwy ar y plentyn, o ran polisi a darpariaeth. | Roedd newidiadau i'r polisi yn ystod y pandemig yn adlewyrchu bod modd cynnig gofal plant ar sail anghenion / sefyllfa fregus y plentyn yn hytrach na statws cyflogaeth y rhieni.<br><br>Croesawir yn fawr newidiadau i'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau ffocws o'r newydd ar fanteision gofal plant i blant iau, ond mae lle i wella ymhellach o hyd. Byddwn ni'n parhau i fonitro'r maes hwn yn fanwl.<br><br>Rydyn ni'n croesawu'r cynnydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y cyllid o ran y gyfradd yr awr a darpariaeth bwyd mewn lleoliadau gofal plant, yng ngoleuni materion costau byw. |